

Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Y Fenter Twyll Genedlaethol

Cyflwyniad

O dan y ddeddfwriaeth Diogelu Data, mae'n ofynnol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) ddarparu gwybodaeth i bob unigolyn ynghylch unrhyw ddata personol y mae'n ei gasglu amdany'n nhw a sut y bydd yn defnyddio'r wybodaeth honno.

Mae'r ddogfen yma'n ymdrin yn benodol â data a brosesir fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol.

Beth ydi'r Fenter Twyll Genedlaethol?

Mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i GTAGC amddiffyn y cronfeydd arian cyhoeddus y mae'n eu gweinyddu ac mae'n bosib y bydd yn rhannu'r wybodaeth a ddarparwyd gyda chyrrff eraill sydd yn gyfrifol am archwilio neu weinyddu'r cronfeydd hynny er mwyn atal a chanfod twyll. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol (y Fenter) yn un ffordd o gyflawni hyn.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn archwilio cyfrifon yr holl gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae'r dasg o gyflawni'r dadansoddiad gofynnol o dan y Fenter wedi ei dirprwyo i Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r Fenter yn ymarfer sy'n cael ei chynnal pob dwy flynedd i ganfod/atal twyll a gordaliadau o'r pwrs cyhoeddus ledled y DU.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i GTAGC (a nifer o gyrff sector cyhoeddus eraill) goladu data penodol dros gyfnod o 2 flynedd.

Mae'r dadansoddiad yn golygu 'Paru Data'.

Beth ydi Paru Data?

Mae paru data yn golygu cymharu dau set o ddata neu fwy.

Ar gyfer y Fenter, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn setiau data gan yr holl sefydliadau gorfodol (megis GTAGC), yn ogystal â chyrrff sector cyhoeddus eraill sydd yn dymuno cymryd rhan.

Bydd y cofnodion hynny yn cael eu cymharu, gan ddefnyddio dulliau electronig, i weld i ba raddau y maent yn cydweddu.

Os deuir o hyd i ddata sy'n cydweddu, fe all hyn ddynodi anghysondeb sydd angen ymchwilio iddo ymhellach. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu achos o dwyll neu ordaliad, ond bydd yn amlygu meysydd y dylid ymchwilio iddynt ymhellach.

Pa wybodaeth bersonol sydd yn cael ei gasglu/ddarparu ar gyfer y Fenter?

Mae'r wybodaeth sy'n cael ei defnyddio ar gyfer yr ymarfer hon eisoes yn cael ei chadw gan GTAGC i ddibenion cyflogaeth. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol y nodi pa wybodaeth sydd yn rhaid ei chyflwyno a bydd yn cynnwys yr un wybodaeth am bob gweithiwr. Darperir yr wybodaeth ganlynol (ni fyddwn yn gofyn am unrhyw wybodaeth ychwanegol gan y gweithiwr ar gyfer yr ymarfer hon):

- Rhif staff, enw a manylion cyflog;
- Dyddiad Geni;
- Manylion Cyswllt y Gweithiwr (megis rhifau ffôn a chyfeiriad e-bost os y'i cedwir);

- Dyddiadau dechrau a gorffen y gweithiwr;
- Rhif Yswiriant Gwladol;
- Dyddiad tâl diwethaf;
- Manylion banc gan gynnwys cod didoli;
- Manylion y rôl – e.e. oriau gwaith, lleoliad gwaith a rhif y swydd.
- Pasbort

Y Sail Gyfreithiol ar gyfer Prosesu'ch Data

Er mwyn casglu neu ddefnyddio gwybodaeth bersonol, i unrhyw ddiben, mae'n rhaid cael sail gyfreithiol a chyfreithlon dros wneud hynny.

Yn yr achos hwn mae'r seiliau canlynol yn berthnasol:

- **Mae'r gwaith prosesu'n hanfodol i gydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithlon y rheolwr**

Mae darparu'r wybodaeth yn ofniad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, o dan ei bwerau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Troseddau Difrifol 2007. O dan y ddeddfwriaeth honno mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y pŵer i gynnal ymarfer paru data (adran 64a) a nodi sefydliadu sydd yn rhaid darparu'r wybodaeth iddynt. Mae GTAGC yn un o'r sefydliadau gorfodol hynny, sydd yn golygu bod yn rhaid i ni ddarparu'r wybodaeth o dan y gyfraith.

Hefyd, fel y nodwyd yn flaenorol, mae gan GTAGC gyfrifoldeb dros sicrhau bod y cronfeydd arian cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdanynt yn cael eu rheoli'n iawn, ac felly mae'r canlynol hefyd yn berthnasol:

- **Mae'r gwaith prosesu yn angenrheidiol i gyflawni unrhyw swyddogaethau cyhoeddus sydd er budd y cyhoedd neu i ymarfer unrhyw awdurdod swyddogol a roddir i'r rheolwr**
- **Mae'r gwaith prosesu yn angenrheidiol at ddibenion buddiannau cyfreithlon a geisir gan y rheolwr**

Paratoi'r Wybodaeth ar gyfer y Fenter

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer y Fenter eisoes yn cael ei chadw gan GTAGC. Fe'i cedwir gan yr adran Adnoddau Dynol a'i goladu'n uniongyrchol o'r System Rheoli Gwybodaeth.

Ar gyfer yr ymarfer hwn, yr Uwch Archwilydd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) fydd yn gyfrifol am goladu a chyflwyno'r data ar ran GTAGC. Dim ond yr unigolyn hwnnw fydd gan fynediad uniongyrchol at y set data cyflawn.

Am faint fydd yr wybodaeth yn cael ei chadw?

Bydd y data a baratoir i'w gyflwyno gan y Cyngor yn cael ei gadw hyd nes y cawn gadarnhad ei fod wedi ei dderbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru a'i gadarnhau. Unwaith y derbynnir y cadarnhad hwnnw bydd yr adroddiad yn cael ei ddileu o systemau'r Cyngor.

Bydd y data'i hun yn dal i gael ei gadw ar ein System Rheoli Gwybodaeth gan ei fod yn cael ei gadw i ddibenion cyflogaeth; fodd bynnag, nid yw'n cael ei gadw

mewn un adroddiad, ac mae gan dimau fynediad at yr elfennau hynny sydd yn angenrheidiol ar gyfer eu rolau penodol.

Bydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn dinistrio'r holl wybodaeth ymhen 6 mis o'i gyflwyno.

Sut yr ydym yn diogelu'ch gwybodaeth

Mae'n holl systemau TGCh yn ogystal â rhai'r Cyngor wedi eu diogelu gan fesurau diogelwch technolegol i atal mynediad heb awdurdod, ac mae lefelau rheoli mynediad yn bodoli ar gyfer y bobl hynny sydd yn gyfrifol am gadw'ch data personol, i sicrhau mai dim ond pobl gyda'r awdurdod priodol sydd yn gallu ei weld.

Mae'r wybodaeth yn cael ei gadw ar ein System Rheoli Gwybodaeth, sydd gan ddiogelwch mynediad ar waith – dim ond y bobl hynny sydd angen mynediad at y data ar gyfer rôl benodol gaiff ei weld, a dim ond rhannau penodol o'r system y maent yn gallu ei weld.

Mae'r data sy'n ofynnol ar gyfer y Fenter yn cael ei goladu o feysydd gwahanol yn ein System Rheoli Gwybodaeth. Dim ond Uwch Archwilydd y Cyngor sydd gan fynediad uniongyrchol at yr adroddiad, ac mae'r mynediad hwnnw'n gyfyngedig i gyfnod yr ymarfer yn unig.

Ar ôl cael ei goladu bydd yn cael ei storio ar rwydwaith ddiogel gyda mynediad reoledig.

Bydd y set derfynol o ddata yn cael ei ddatgelu trwy borth wedi ei ddiogelu (gydag amgryptiad).

Mae gofyniad cyfreithiol ar Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol i sicrhau bod ganddynt fesurau diogelu penodol yn eu lle i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â phwerau Archwilydd Cyffredinol Cymru, a'r Fenter Twyll Genedlaethol, ewch i wefan Swyddfa Archwilio Cymru - [Swyddfa Archwilio Cymru](#)

Eich hawliau

Er mwyn galluogi i unigolion gael mwy o reolaeth dros y modd y mae eu data personol yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio, mae'r ddeddfwriaeth diogelu data'n rhoi hawliau penodol i chi.

Mae gennych yr hawl gyfreithiol i ofyn am gopi o'r wybodaeth yr ydym ni'n ei gadw amdanoch chi. Bydd eich cais yn cael ei thrin yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data, Anfonwch eich cais, yn ysgrifenedig, at y Swyddog Diogelu Data (dpo@nwales-fireservice.org.uk).

Mae GTAGC am wneud yn siŵr bod eich data personol yn gywir ac mae gennych y hawl i ofyn i ni gywiro neu gael gwared ar wybodaeth sydd yn anghywir yn eich barn chi.

Mae gennych yr hawl hefyd i ofyn ar i unrhyw ddata personol gael ei ddileu, fodd bynnag, mae hyn yn berthnasol dim ond i wybodaeth wallus, anghywir a/neu lle nad oes gennym yr hawl cyfreithiol i'w gadw.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am y modd y mae GTAGC yn gofalu am eich data, cyfeiriwch at ein hysbysiad preifatrwydd gweithwyr - [Hysbysiadau](#)

[preifatrwydd GTAGC <http://www.nwales-fireservice.org.uk/about-us/publication-scheme/general-data-protection-regulation/>](http://www.nwales-fireservice.org.uk/about-us/publication-scheme/general-data-protection-regulation/).

Mae gennych hefyd yr hawl i godi unrhyw bryderon gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef yr awdurdod deddfwriaethol ar gyfer y ddeddfwriaeth diogelu data. Ceir rhagor o wybodaeth ar eu gwefan - <https://ico.org.uk/concerns/> neu gallwch gysylltu â hwy yma:

The Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn - 0303 123 1113